

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at on Dydd Mercher, 20fed Medi, 2023 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor Alistair Neill (Chairman)

County Councillors: Jill Bond, Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb, Rachel Buckler, John Crook, Sara Burch

Also in attendance County Councillor Mary Ann Brocklesby, Leader of the Council

Officers in Attendance

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad

APOLOGIES: County Councillors Laura Wright and Catherine Fookes

1. Datganiadau o Fuddiant

None.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

None.

3. Proses Hunanasesu

Cyflwynodd y Cynghorydd Brocklesby yr adroddiad a chafwyd cyflwyniad gan Richard Jones a Hannah Carter. Atebodd y Cynghorydd Brocklesby, Matthew Gatehouse a Richard Jones gwestiynau'r aelodau.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor:

- Nodi y byddai rhoi mynediad at yr adroddiad hwn i'r cyhoedd, ynghyd â dangosfwrdd wedi bod yn fwy defnyddiol, ac y dylid ystyried cydlynid o'r fath.
- Gofyn am ragor o wybodaeth am y broses hunanasesu, a oes cynlluniau cyfathrebu â rhanddeiliaid, ac a oes adolygiadau'n digwydd o'r hyn sydd wedi'i wneud
- A ofynnir am farn trigolion ar werth am arian
- Gofyn pam mai dim ond 40% yw canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau
- Nodi bod rhai cynghorau'n rhoi hunanasesiad i grwpiau preswylwyr er mwyn gofyn eu barn ar effaith perfformiad y cyngor ar drigolion – nodi pwysigrwydd a gwerth adborth gan drigolion a'r gwahaniaeth rhwng preswylwyr yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a gallu cymryd rhan mewn gwirionedd yn y broses honno

- Arsylwi, gyda ffocws yr adroddiad ar allbynnau, y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am fudd uniongyrchol y canlyniadau hynny i drigolion ee manteision iechyd yn deillio o'r cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden.
- Gofyn sut mae'r cyngor yn defnyddio cyfleusterau hamdden i ohirio datgryfnyddu, sicrhau bod preswylwyr yn osgoi gofal brys mewn ysbyty, a gwella iechyd meddwl a lles rhai grwpiau penodol
- Gofyn sut yr ydym yn mynd i gofnodi a mesur lleisiau ar brofiadau bywyd, a ellir ymgysylltu â dinasyddion wrth gynllunio gwasanaethau, ac a ellir anfon fersiwn cynnar o'r adroddiad i Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i'w adolygu, i weld a yw'r setiau data cywir yn cael eu cofnodi
- Nodi y byddai'n ddefnyddiol cael cymariaethau perthnasol ag awdurdodau eraill, ac y byddai data o'r fath yn cael ei ddangos orau mewn dangosfwrdd
- Gofyn pam na ellir cael targedau interim nawr, sut mae'r wybodaeth a ddarperir gan swyddogion yn cael ei herio, ac a all yr adroddiad wneud llai o edrych yn ôl ac edrych yn fwy i'r dyfodol
- Gan na fydd dangosfwrdd yn rhyngweithiol i'r trigolion, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a roddwn i drigolion - mae'n bwysig iawn bod profiad ac adborth trigolion yn cael eu cynnwys yn y gwerthusiad hwn, ac mae angen newid y teimlad nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y cyngor
- Awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o fanylion ar sut mae'r strategaethau a'r arolygon a grybwyllwyd yn yr adroddiad wedi effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau, megis yr arolwg Natur Wyllt
- Mynegi amheuaeth ynghylch defnyddioldeb rhai arolygon e.e. arolwg llyfrgell, gofyn pam na ofynnwyd i'r 99% o'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr pam nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau llyfrgell
- Cynnig, gyda'r angen i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gyfathrebu, y dylid cynnwys gwybodaeth arall wrth gyflwyno bil treth cyngor blyneddol
- Nodi weithiau nad oes meini prawf gwrthrychol er mwyn cymhwyso rhywbeth fel llwyddiant e.e. cyflwyno'r terfynau 20mya, gan fod Sir Fynwy yn gynllun peilot, ac y gall y dull o fesur llwyddiant fod yn oddrychol iawn.
- Gofyn a ddylai 'llwyddiant' prosiect gynnwys cefnogaeth gyhoeddus
- Ailadrodd y byddai'n ddefnyddiol gwybod beth mae awdurdodau eraill yn ei wneud, a gofyn a allwn rannu arfer â hwy, er mwyn sicrhau ein bod yn gofyn y cwestiynau cywir i'n hunain
- Cynnig bod crynodeb o'r drafodaeth heddiw yn cael ei anfon at y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – bydd y Cadeirydd yn cynnwys y pwyllgor wrth anfon ei grynodeb i'r Cabinet.
- Gofyn a ellid cyhoeddi ymgynghoriadau mewn cylchlythyrau cymuned a chylchlythyrau plwyf
- Gofyn pam fod targed 2026/27 ar gyfer effaith economaidd blyneddol twristiaeth draean yn is na'r ffigur diweddaraf
- Nodi y byddai manylion effaith gweithredu'r cwricwlwm addysgu newydd wedi bod yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â'r newid mewn dysgu gwyddoniaeth, a mynegi pryder ynghylch y gostyngiad ym mhynciau iaith ar lefel TGAU a Lefel A – **CAM GWEITHREDU: ychwanegu diweddariad ar addysg iaith a gwyddoniaeth i'r rhaglen waith**

- Cwestiynu perthnasedd targedau lleihau gwasanaeth a oedd wedi'u cyrraedd cyn yr ymosodiad ar yr Wcráin a'r cynnydd mewn chwyddiant a ddaeth yn ei sgil.
- Gofyn a yw'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb o £23m ar gyfer 26/27 ynghyd â'r rhagolwg y bydd y cronfeydd wrth gefn yn crebachu i £22.7m o fewn yr un amserlen yn rhywbeth y gellir ei ddiffinio fel sefydliad sy'n nesáu at ansolfedd, a pham nad oes sylwebaeth benodol yn cysylltu'r ddau ffigur dan sylw gyda'i gilydd
- Gofyn sut rydym yn bwriadu defnyddio gwell data er mwyn gwella profiad dinasyddion, a nodi pwysigrwydd cynlluniau busnes y gwasanaeth i bopeth y mae'r cyngor yn ei wneud
- Ailadrodd pwysigrwydd dadansoddiad o randdeiliaid; er enghraifft, o ran chyflwyno terfynau 20mya yn Sir Fynwy, nid oedd digon o ymgysylltu â thrigolion – mae angen i'r cyngor ystyried adolygiad o Gamau Cyn Gweithredu yn ogystal â Chamau Ôl Weithredu – a nodi nad oes unrhyw argymhelliad o'r hyn a ddysgwyd ym Mharc Spytty

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a chynigiodd yr adroddiad.

4. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Rhestr Weithredu

Mae angen i'r eitem Adroddiad Monitro Blynnyddol y CDLI gael ei symud yn ôl o'r cyfarfod nesaf, o bosibl i fis Ionawr.

Cynigiodd y Cynghorydd Bond y dylid dod â'r Strategaeth Ariannol, y Strategaeth Llifogydd (Pwyllgor Lle) ac eitemau'r Cyngor a Gwydnwch Cymunedol yn eu blaen ar y rhaglen waith –

CAMAU GWEITHREDU

5. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet

6. I gadarnhau a llofnodi'r cofnodion canlynol:

- 21ain o Fehefin 2023: Cyfarfod Cyffredin
- 17eg o Orffennaf 2023: Cyfarfod Arbennig

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

7. Cyfarfod nesaf: 24ain Hydref 2023

The meeting ended at **12.21 pm**